ATODIAD A - Enghreifftiau o newid bach a newidiadau â ffocws

**Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd**

**Tuag at Fabwysiadu**

**Cyflwyniad**

1. Cafodd Iwan Evans ei gomisiynu gan Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Ynys Môn i baratoi adroddiad i Banel y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar sefyllfa bresennol y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLl ar y Cyd) a sut y gall y cynllun fynd yn ei flaen dros y camau nesaf i gael ei fabwysiadu. Mae gan Iwan Evans dros ddeg mlynedd ar hugain o brofiad cynllunio, yn gyn-Bennaeth Polisi Cynllunio yng Nghyngor Sir y Fflint, a chyn-Bennaeth Cynllunio a Thrafnidiaeth yng Nghyngor Gwynedd. Ers sefydlu ei ymgynghoriaeth ei hun yn 2007, mae wedi rhoi cyngor i sawl awdurdod lleol yng ngogledd Cymru ar faterion polisi cynllunio, ac wedi cynrychioli Cyngor Sir y Fflint a Pharc Cenedlaethol Eryri mewn Archwiliadau Cyhoeddus o'i Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae'n parhau i gefnogi Parc Cenedlaethol Eryri ar faterion polisi cynllunio ynghyd â chynghori awdurdodau cynllunio lleol.

**Proses Baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol**

2. Caiff y broses o baratoi a mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol yn derfynol, ei lywodraethu'n bennaf gan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu eglurhad pellach yn y dogfennau "Cynlluniau Datblygu Lleol Cymru" (2005) a'r "Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Lleol" (2006). Mae'r paratoi'n seiliedig ar "broses", ac mae'n rhaid iddi gael ei hategu gan sail dystiolaeth gadarn sy'n cefnogi strategaeth, amcanion a pholisïau'r Cynllun. Yn allweddol, rhaid i Gynllun basio deg prawf cadernid sy'n seiliedig ar;

- Weithdrefn
- Cysondeb
- Cydlyniad ac Effeithiolrwydd

3. Yn gychwynnol, bydd Arolygwr sy'n archwilio yn canfod barn fod cynllun sydd wedi'i gyflwyno i'w archwilio yn "gadarn" a bod gan yr awdurdod cynllunio lleol (ACLl) y dystiolaeth angenrheidiol i gefnogi'r honiad o gadernid. O ganlyniad, bydd yr Arolygwr yn cymryd yn ganiataol fod y cynllun yn gywir, a bydd yn rhaid i unrhyw sylwadau gael tystiolaeth ddigonol i ymwrthod â'r rhagdybiaeth hon yn ystod yr Archwiliad. Os nad oes tystiolaeth yn cael ei chyflwyno gan wrthwynebwyr, neu os yw'r dystiolaeth honno'n annigonol, bydd Arolygwr yn dychwelyd yn ôl at farn gadernid yr awdurdod lleol. Bydd hyn hefyd yn berthnasol i safleoedd dynodedig h.y. ni fydd Arolygwr yn archwilio teilyngdod safleoedd datblygu ychwanegol mewn manylder os nad yw'r strategaeth dwf yn dderbyniol yn ei chyfanrwydd, ac os oes digon o safleoedd y mae modd eu "cyflawni" i gyrraedd targedau twf derbyniol. Pwrpas amlinellu'r uchod, yn syml, yw pwysleisio sefyllfa eithaf cryf ACLl sydd â CDLl rhesymegol sy'n gysylltiedig â sail dystiolaeth rymus, sydd yn ôl hwy, yn gadarn.

ATODIAD A - Enghreifftiau o newid bach a newidiadau â ffocws

4. Erbyn hyn, mae'r CDLl ar y Cyd wedi cyrraedd cam critigol yn ei broses baratoi yn dilyn ymgynghoriad ar y Cynllun Adnau. Mae’r awdur yn deall fod y Panel, yn ystod ei gyfarfod diwethaf, yn awyddus i ddeall gofynion deddfwriaeth a chanllawiau yn ystod y cam critigol hwn cyn gwneud argymhellion i Arolygwr ynglŷn â theilyngdod y sylwadau. Felly, mae’n amserol i gymryd seibiant ac i adlewyrchu ar y sefyllfa bresennol cyn symud ymlaen i'r camau olaf. Prif gamau paratoi CDLl yw;

- Casglu Tystiolaeth ac Amcanion
- Opsiynau Strategol yn ymwneud â Gweledigaeth a’r Strategaeth a Ffafrir (cyn-adnau)
- Cynllun Adnau
- Cyflwyno Cynllun er mwyn ei Archwilio a’i Fabwysiadu

5. Rhywbeth sy’n gysylltiedig â’r uchod ac sy’n cael ei brofi yn ystod camau amrywiol yw'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd (GC). Ar ôl gwaith sgopio cychwynnol, mae’r GC yn cael ei gwblhau ar gyfer y cam Strategaeth a Ffafrir ac yn cael ei ddiweddaru ar gyfer y Cynllun Adnau. Mae’r cam casglu tystiolaeth cychwynnol yn cynnwys ymgynghoriad anffurfiol gyda budd-ddeiliaid penodol, ac mae'r ddau gam nesaf (strategaeth a ffafrir ac adnau) yn cynnwys cyfnod ymgynghori ffurfiol â’r cyhoedd a phartïon sydd â diddordeb. Mae hyn yn para am chwech wythnos.

6. Nid gwerthuso cynnwys y sylwadau a dderbyniwyd ar y CDLl ar y Cyd yw pwrpas yr adroddiad hwn. Mae’r awdur yn gyfarwydd â’r cynllun a rhai o'r sylwadau a dderbyniwyd, ond ni wnaed unrhyw ddadansoddiad manwl o dystiolaeth gefndirol yn erbyn y sylwadau hynny. Fel Arolygwr, caiff ei gymryd yn ganiataol bod y CDLl ar y Cyd yn gadarn oni bai bod tystiolaeth pellach i brofi fel arall. Pwrpas yr adroddiad hwn yw amlinellu'r gweithdrefnau sydd wedi digwydd hyd yn hyn a pha risgiau gweithdrefnol a all fod ar y gorwel.

7. O ran y CDLl ar y Cyd, paratowyd dwy brif ddogfen ymgynghori ar gyfer y cam cyn-adnau. “Datblygu’r Weledigaeth ac Opsiynau Strategol” a "Dogfen Strategaeth a Ffafrir". Roedd yr olaf yn cynnwys y weledigaeth yn ei chyfanrwydd ac amcanion strategol ac opsiwn twf y cynllun. Cafodd ei baratoi yn dilyn ymgysylltiad gyda'r Prif Grŵp Budd-ddeiliaid ac ymgysylltiad â'r cyhoedd a phartïon oedd â diddordeb. Yn ogystal, paratowyd nifer o asesiadau megis Asesiad Effaith Cydraddoldeb ac Asesiad Effaith yr Iaith Gymraeg iteraidd, ynghyd ag amryw o Bapurau Testun Cefndirol. Hyd y gwyddai’r awdur, rhoddwyd cyfle i aelodau graffu a herio'r dystiolaeth a gynhwysir yn y dogfennau hyn (fel Aelodau Panel, Aelodau unigol, neu weithgorau testun penodol). Yn eu tro, mae’r Asesiadau a'r Papurau Testun Cefndir hyn wedi dylanwadu cynnwys y CDLl ar y Cyd.

8. Uchafbwynt holl gamau paratoi'r cynllun yw'r Cynllun Adnau, ac erbyn hyn dylai'r ACLl fod yn hyderus bod y Cynllun yn gadarn a bod ganddynt dystiolaeth gefndirol ddigonol i gefnogi'r datganiad hwn (fel arall, ni ddylai'r cynllun fod wedi'i roi ar adnau yn y lle cyntaf). Fodd bynnag, mae enghreifftiau o CDLl eraill yng Nghymru nad

oeddynt yn gadarn, a oedd wedi symud ymlaen i'r cam Archwilio. Bydd y rhain yn cael eu trafod yn hwyrach ymlaen yn yr adroddiad.

9. O ganlyniad i ddadansoddi'r gweithdrefnau a gynhaliwyd hyd yn hyn, trafodaethau gyda swyddogion ac archwiliad brys o'r wybodaeth gefndirol, nid oes rheswm i awgrymu nas ymgymerwyd â'r gweithdrefnau cywir ar y CDLl ar y Cyd.

**Camau Nesaf**

10. Mae'r CDLl ar y Cyd wedi cyrraedd y cam adnau erbyn hyn, ac ystyrir sylwadau ar y cynllun adnau. Rhaid i sylwadau ar y cynllun ddatgan pa brofion cadernid sydd wedi methu, ac er mwyn gwneud hyn mae'n rhaid cael tystiolaeth i ategu'r honiad. Ni fydd Arolygwr yn rhoi llawer o sylw i wrthwynebiad ar yr olwg gyntaf. Gall gwrthwynebwyr awgrymu newidiadau i gynllun, ond ni ddylai'r newidiadau hynny danseilio'r Gwerthusiad Cynaladwyedd. Cyn cyflwyno Cynllun i gael ei archwilio, bydd rhaid i'r Cynghorau ddatgan yng nghronfa ddata'r ymgynghoriad p'un a yw'n cytuno neu'n anghytuno efo sylwad, neu pa gyfaddawd all fod ar gael. Bydd unrhyw wrthwynebiadau sylfaenol gan ymgynghorai statudol, sy'n amhosibl eu datrys ac sydd yn mynd at galon Cynllun, yn codi pryderon ynghylch cadernid y cynllun. Byddai hyn yn amser da i egluro'r mathau o newidiadau a all godi o ganlyniad i'r sylwadau adnau (gweler Atodiad 1 am esiamplau o fân newidiadau a newidiadau â ffocws o GDLl Conwy).

- **Mân Newidiadau** - newid mân o ganlyniad i wall drafftio neu anghywirdeb ffeithiol nad yw'n ymwneud â chynnwys nac ystyr Cynllun.

- **Newid â ffocws** - fel arfer, newidiadau sy'n gwella geiriad polisïau a'r eglurhad o ganlyniad i sylwadau, newid mewn amgylchiadau lleol neu bolisi llywodraeth. Ni ddylai newidiadau o'r fath, ar eu pen eu hunain neu wedi'u plethu â rhai eraill, danseilio strategaeth, amcanion na chadernid cynllun. Mae gan ACLl yr opsiwn i wneud newidiadau â ffocws ac mae'n rhaid eu cynnwys mewn adendwm i'r Cynllun Adnau yn ystod y cam cyflwyno. Nid oes gofyn statudol i gynnal ymgynghoriad ar y rhain, ond mae rhai ACLl wedi gwneud hynny cyn dechrau'r sesiynau gwrandawiad yn ystod yr Archwiliad.

- **Newid Sylfaenol** - newid mwy drastig all fod angen tystiolaeth bellach ac all arwain at newid yn y strategaeth a'r amcanion, neu'r angen am fwy neu lai o safleoedd dynodedig. Mae newidiadau o'r fath yn mynd at galon cynllun, ac maent yn effeithio ar nifer o amcanion a pholisïau. Os yw ACLl yn ystyried fod angen newidiadau o'r fath, ni ddylai fynd ati i gyflwyno'r cynllun a bydd angen ymgynghori unwaith eto ar yr adnau neu hyd yn oed fynd yn ôl i'r cam cyn-adnau.

11 Ar y pwynt hwn, mater i'r ACLl yw penderfynu p'un a i wneud newidiadau ai peidio. Dylid osgoi gwneud newidiadau oni bai fod yna angen amlwg, a bydd unrhyw newid sylfaenol, fel yr eglurir uchod, yn achosi ail-feddwl llwyr. Os yw sylwadau'n amlygu pryderon ynglŷn â thystiolaeth, efallai y byddai'n ddoeth ategu'r sail dystiolaeth, cyn belled nad yw

unrhyw dystiolaeth newydd yn tanseilio’r cynllun presennol h.y. mae cynnwys y Cynllun yn cydfynd â’r sail dystiolaeth. Fodd bynnag, os bu ymgysylltiad priodol gyda budd-ddeiliaid ac ymgynghoreion statudol, ni ddylai'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cam adnau beri syndod. Petai gwahaniaeth barn yn codi, ffordd dda o ymdrin â hyn yw sefydlu meysydd "tir cyffredin" gyda gwrthwynebwyr, cyn symud ymlaen i archwiliad. Bydd Datganiadau Tir Cyffredin yn helpu egluro pwyntiau penodol o anghytundeb, ac yna gall yr Arolygwr geisio eu datrys.

12 Mae’r sylwadau a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru (LlC) yn hanfodol bwysig. Drwy gydol y broses baratoi, byddai swyddogion Cynllunio'r UPC ar y Cyd wedi derbyn sylwadau ffurfiol ac anffurfiol gan swyddogion LlC. Mae sylwadau LlC ar yr adnau yn rhoi syniad da o gadernid cynllun, er na ellid dibynnu arnynt yn gyfangwbl. Ni ddylid eu defnyddio i brofi cadernid. Mae’r awdur wedi adolygu sylwadau LlC ar y CDLl ar y Cyd, ac nid oes unrhyw sylwadau sylfaenol ganddynt sy’n peri risg sylweddol i symud y cynllun ymlaen i’r cam cyflwyno. Mae’n bwysig cynnwys LlC, gan y bydd yn ein cynorthwyo yn ystod yr Archwiliad. Wedi dweud hynny, mae nifer o faterion a godwyd gan LlC, y dylid eu cyfarch gan yr UPC ar y Cyd cyn cyflwyno’r cynllun.

**Cyflwyno ac Archwilio**

13 Rhaid cyflwyno sawl dogfen i’r Arolygiaeth a LlC cyn i’r broses Archwilio ddechrau - y rhai mwyaf pwysig yw’r Cynllun Adnau, Papurau Cefndirol, y sylwadau a dderbyniwyd, newidiadau â ffocws arfaethedig (os oes rhai) ac unrhyw wybodaeth newydd sydd ddim yn newid cadernid y Cynllun. Dylai’r ACLl awgrymu rhestr o’r prif faterion i’w hystyried mewn archwiliad a'r weithdrefn a argymhellir i ymdrin â hwy. Bydd Arolygwr annibynnol yn cael ei benodi i ymgymryd â’r Archwiliad. Bydd yr Arolygwr yn ystyried y prif faterion a godwyd gan yr ACLl, ac os oes angen, bydd yn ychwanegu mwy at y rhestr. Os oes gan yr Arolygwr bryderon ynglŷn â chadernid y Cynllun, neu os nad yw’n deall materion penodol, bydd Cyfarfod Eglurhad yn cael ei drefnu gyda phartïon sydd â diddordeb, ond yn bennaf gyda’r ACLl. Nid yw rhai cynlluniau’n mynd heibio’r cam Cyfarfod Eglurhad oherwydd pryderon sylfaenol yr Arolygwr, ac felly maent yn cael eu tynnu yn ôl.

14 Os nad oes pryderon sylfaenol yn dilyn cyfarfod cyn-Ymchwiliad, bydd y Gwrandawiadau Archwilio yn dechrau ac yn cynnwys cyfres o wrandawiadau'n seiliedig ar destunau wedi’u dewis gan yr Arolygydd (ac yn seiliedig ar y prif faterion a amlinellwyd ym mharagraff 13). Mae Sesiynau Gwrandawiad arferol yn trafod y Strategaeth yn ei chyfanrwydd, Targedau Twf Tai, Tai Fforddiadwy a Safleoedd Dynodedig Strategol. Mewn rhai Archwiliadau, mae’r Arolygwr wedi gohirio’r Gwrandawiadau er mwyn casglu mwy o wybodaeth neu i hysbysebu newidiadau penodol (os nad yw hyn yn cymryd mwy na chwech mis). Fel y nodir uchod, bydd yr Arolygwr yn cymryd yn ganiataol fod y Cynllun yn gadarn, felly mae'n bwysig i'r ACLl gysylltu y dystiolaeth gefndirol gyda'r Cynllun ei hun mewn unrhyw gyflwyniadau Archwilio. Oherwydd y wybodaeth amrywiol, mae’n bosib na fydd rhai materion pwysig yn cael eu pwysleisio ddigon, neu fod rhai yn cael eu colli. Ni fydd yr Arolygwr yn ceisio gwella Cynllun os yw’n gadarn yn y bôn. Er enghraifft, ni ddylai'r Arolygwr boeni am welliannau mân yn ymwneud â geiriad polisi neu ychwanegu eglurhad pellach oni bai ei fod yn wirioneddol angenrheidiol, neu'n rhan o newid â ffocws a gynigir gan yr ACLl. Yn yr un modd, ni fydd Arolygwr yn archwilio dynodiadau tai ychwanegol yn fanwl os oes

cyflenwad digonol yn bodoli eisoes. Yn ystod yr Archwiliad, efallai bydd yr Arolygwr a'r ACLl yn cytuno ar newidiadau â ffocws penodol, a bydd angen hysbysebu’r rhain i dderbyn sylwadau maes o law. O ran hyn, bydd yn rhaid sicrhau dirprwyo peth awdurdod i swyddogion. Fel arall, bydd oedi yn y broses gyfan a bydd y costau'n cynyddu.

15 Yn derfynol, bydd yr Arolygwr yn cynhyrchu adroddiad gyda newidiadau a argymhellir i'r Cynllun, sydd wedi'u rhwymo ar yr ACLl.

**Enghreifftiau o Archwiliadau CDLl eraill**

16 Mae’r enghreifftiau a ganlyn yn rhoi ychydig o fewnwelediad i anawsterau sydd wedi codi gyda CDLl eraill ar ôl eu cyflwyno i gael eu Harchwilio. Maent yn gwasanaethu fel enghreifftiau o faterion a all ymwneud â newidiadau sylfaenol i Gynllun. Mae’r enghraifft gyntaf yn dod o Cynllun Datblygu Lleol gwreiddiol Caerdydd. Ar ôl cael ei gyflwyno, cafodd y Cynllun hwn ei dynnu yn ôl ym mis Mawrth 2010, yn dilyn Cyfarfod Eglurhad oherwydd pryderon difrifol yr Arolygwr. Roedd ei brif bryder yn ymwneud â bwriad y cynllun i ddarparu'r tai newydd i gyd ar dir llwyd neu safleoedd a ddaw ar gael ar hap er mwyn creu 27,442 annedd newydd. Yr unig ateb yn yr achos hwn oedd ail-ymweld â’r strategaeth a dynodi rhai safleoedd tir gwyrdd i roi dewis a peth hyblygrwydd o ran cyrraedd y ffigwr rhagamcan tai. Dyma enghraifft amlwg ble nad oedd y Cynllun yn gadarn, ac ni ddylai fod wedi mynd ymlaen i gael ei Archwilio.

17 Yr ail enghraifft yw Cynllun Datblygu Lleol Wrecsam, a aeth ymlaen at ddechrau’r Archwiliad yn 2012 ond cafodd ei stopio ar ôl wythnos gyntaf y Gwrandawiadau yn dilyn pryderon sylfaenol yr Arolygwr. Dyma’r pryderon;

- Diffyg cyflenwad tai
- Dim cyflenwad addas o dai fforddiadwy
- Dim darpariaeth addas i sipsiwn a theithwyr
- Y Cynllun yn methu ymateb i’w sail dystiolaeth ei hun
- Nid oedd yn bosib gweithredu’r newidiadau cronnus a oedd eu hangen yn ddigon sydyn i sicrhau cynllun cadarn.

18 Mae'r rhan fwyaf o broblemau sy'n codi mewn CDLl yn ymwneud â phroblemau tai; fel arfer targed tai diffygiol (rhy isel) neu gyflenwad annigonol o dir i gyrraedd y targed. O ganlyniad, ceir ffigwr rhy isel o dai fforddiadwy i ddiwallu'r angen a adnabuwyd. Mae llawer o ACLl yn cael trafferthion â darpariaeth annigonol o safleoedd i sipsiwn a theithwyr - rhaid i nifer y safleoedd gyd-fynd â’r angen a adnabuwyd. Cafodd Archwiliad CDLl Conwy ei ohirio er mwyn cael mwy o wybodaeth ar angen sipsiwn a theithwyr. Yn yr un modd, bu oediad yn Archwiliad Sir Ddinbych er mwyn dynodi safleoedd tai ychwanegol i ddarparu mwy o hyblygrwydd a sicrwydd cyflenwad.

**Casgliadau**

## ATODIAD A - Enghreifftiau o newid bach a newidiadau â ffocws

19. Dim ond os nad yw’r cynllun adnau yn gadarn y dylid gwneud newidiadau sylfaenol i'r CDLl ar y Cyd sy'n codi o sylwadau'n ymwneud â thystiolaeth, neu newidiadau i amgylchiadau. Fel arall, dylai’r Cynllun fynd yn ei flaen i gael ei gyflwyno a’i fabwysiadu. Efallai yr hoffai'r awdurdodau ar y cyd gryfhau eu tystiolaeth, ond mae angen iddynt fod yn ofalus nad yw hyn yn tanseilio rhesymeg y Cynllun presennol. Nid yw unrhyw Gynllun yn berffaith, ac oherwydd y newidynnau amrywiol y mae’n rhaid iddo ystyried, mae yna agwedd o gyfaddawd wrth geisio cloriannu rhai materion dyrys. Mae’n debygol y bydd llawer o sylwadau yn gofyn am rai newidiadau sylfaenol, ond mae’n rhaid barnu'r rhain yn erbyn y dystiolaeth a gyflwynir o’i chymharu â'r dystiolaeth sy'n ategu'r Cynllun Adnau a'u heffaith yn gyffredinol ar y CDLl ar y Cyd. Ni fyddai’n ddoeth gwneud cynllun cadarn yn un sy’n llai cadarn.

Enghraifft 1 – Darn allan o Ddogfen Newidiadau â Ffocws Cyngor Conwy 2012 – mae’r newidiadau bach golygyddol yn eiriau sy’n cael eu tynnu allan mewn melyn a geirfa bychan ychwanegol mewn coch.

**ADRAN UN - CYFLWYNIA**

| **Rhif Cyf. Newid â Ffocws** | **Adain/ Pennawd** | **Rhif Tud CDLl** | **Polisi** | **Newid bwriedig** | **Cyfiawnhad** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | datblygiadau yn digwydd yng Nghonwy hyd at 2022.<br><br>Hoffwn ddiolch i’r holl bobl sydd wedi cyfrannu at ddatblygu’r Cynllun hwn a gobeithiaf ei fod yn sail ddarparu datblygiadau newydd yng Nghonwy er mwyn rhoi sylw i anghenion y cymunedau lleol mewn ffordd gynaliadwy a phenodol i’r ardal.<br><br>**Y Cynghorydd Dilwyn Roberts**<br>**Arweinydd y Cyngor** | |
| IN003 | Troednodyn | Yr holl dudalennau | | Cynllun Datblygu Lleol Conwy ~~i’w Archwilio Gan Y Cyhoedd~~ 2007 – 2022 ~~(Argraffiad Diwygiedig 2011)~~ | Diwygiwyd i adlewyrchu cynnydd yn y broses CDLl |
| IN004 | 1.1.1 | 11 | | Mae Cynllun Datblygu Lleol Conwy (CDLl) yn ymwneud â’r rhan o Fwrdeistref Sirol Conwy sydd y tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri (a elwir yn Ardal y Cynllun). Mae Ardal y Cynllun yn gyfoethog mewn asedau hanesyddol, mae iddi ddiwydiant twristiaeth ffyniannus, cysylltiadau cludiant rhagorol, ansawdd dŵr ac aer da ac amgylchedd naturiol o ansawdd uchel (gan gynnwys arfordir a chefn gwlad ~~a Pharc Cenedlaethol~~). Fodd bynnag, mae’r rhagolygon poblogaeth ac aelwydydd wedi dangos gallai poblogaeth Ardal y Cynllun gynyddu gan hyd at 7,850 o bobl erbyn 2022. Prif nodweddion y newid poblogaeth hwn a’r pryderon cysylltiedig ydi:<br><br>• Mae nifer o bobl yn grŵp oed 18-64 yn gostwng gan olygu gostyngiad yn y rheiny sydd yn gweithio ac felly yn effeithio ar berfformiad economaidd y Fwrdeistref Sirol;<br><br>• Mae nifer y bobl oed 65+ yn cynyddu’n sylweddol gan olygu mwy o bwysau ar gyfleusterau gofal cymdeithasol ac iechyd a gwasanaethau a hynny ar draul perfformiad economaidd;<br><br>• Rhagwelir gostyngiad sylweddol yn nifer plant ar draul perfformiad economaidd y dyfodol, lefelau disgyblion ysgol a hunaniaeth gymunedol; | Mân newid golygyddol |

2

ATODIAD A - Enghreifftiau o newid bach a newidiadau â ffocws

Enghraifft 2 – Darn allan o Ddogfen Newidiadau â Ffocws Cyngor Conwy 2012


Mae'n enghraifft o eirfa ychwanegol mwy sylweddol sy'n ychwanegu eglurhad ffeithiol pellach ond nid yw'n newid cyfeiriad na chadernid y Cynllun – felly mae'n newid â ffocws.

| ADRAN UN - CYFLWYNIA | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif Cyf. Newid â Ffocws** | **Adain/ Pennawd** | **Rhif Tud CDLl** | **Polisi** | **Newid bwriedig** | **Cyfiawnhad** |
| | | | | yr amlinellir ym Mholisi Cynllunio Cymru (PPW), Nodiadau Cyngor Technegol (TANs) a Chylchlythyrau. | |
| IN034 | Paragraff newydd | | | **Canllawiau Cynllunio Mwynau**<br><br>Mae Polisi Cynllunio Mwynau Cymru (MPPW) yn amlinellu polisi cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag echdynnu mwynau a datblygu cysylltiedig yng Nghymru, sy'n cynnwys unrhyw fwynau a sylweddau mewn, neu o dan dir, a echdynnir naill ai drwy weithio o dan ddaear neu ar yr arwyneb. Atodir MPPW gan Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau (MTANs) | Geiriau ychwanegol i ddarparu eglurhad |
| IN035 | Paragraff newydd | | | **Ailadrodd Canllawiau Cenedlaethol**<br><br>Yn unol â chanllawiau yn CDLl Cymru, dylai dogfennau CDLl roi ystyriaeth i bolisïau cynllunio cenedlaethol, ond ni ddylent eu hailadrodd. Felly, dylid ystyried y CDLl mewn cysylltiad â Chanllaw Cymharu Polisi Cynllunio Cymru, sy'n nodi'r meysydd hynny lle nad oes angen ailadrodd datganiadau clir o bolisïau rheoli datblygu cenedlaethol fel polisïau lleol yn y CDLl. Dylid nodi felly, bod y CDLl ond yn darparu'r fframwaith bolisi ar gyfer materion o natur lleol penodol. Er hynny, er mwyn osgoi gormod o ailadrodd ar ganllawiau cenedlaethol drwy gydol y CDLl ac ystyried sefyllfaoedd sy'n newid mewn polisi cenedlaethol, ffurfir Polisi 'dal y cyfan' yn CDLl Conwy. Bydd polisïau datblygu nad ydynt yn cyflwyno materion penodol lleol yn cael eu hasesu yn unol â gofynion Polisi CDLl DP/6 – 'Polisïau a Chanllawiau Cynllunio Cenedlaethol'. | Geiriau ychwanegol i ddarparu eglurhad |
| IN036 | Paragraff newydd | | | Mae Cynllun Gofodol Cymru (WSP), a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru yn 2004 ac a ddiweddarwyd yn 2008, yn darparu fframwaith ategol eang ar gyfer datblygu a chynlluniau eraill, yn benodol, CDLl Conwy. Mae Deddf Cynllunio a Phryniant Gorfodol 2004 a'i reoliadau ategol yn ei gwneud yn ofynnol i CDLl Conwy ystyried yr WSP. Rhennir y WSP yn chwe Ardal Cynllun Gofodol (SPAs) traws-ffiniol. Mae Ardal Cynllun Conwy yn bennaf o fewn Gogledd Ddwyrain Cymru - SPA y Ffin a'r Arfordir ac ystyrir ei fod yn gwneud cyfraniad pwysig i economi Cymru a'r DU. Mae ffyniant yr Ardal i'r dyfodol wedi'i gysylltu'n agos â Gogledd Orllewin Lloegr yn ogystal â SPA cyfagos Gogledd Orllewin Cymru a Chanolbarth Cymru. | Geiriau ychwanegol i ddarparu eglurhad |

16

ATODIAD A - Enghreifftiau o newid bach a newidiadau â ffocws

Enghraifft 3 – Darn allan o Ddogfen Newidiadau â Ffocws Cyngor Conwy 2012 – Mae'n dangos bod dynodiadau tai wedi cael eu newid gydag un safle newydd yng Nghyffordd Llandudno'n cael ei ychwanegu o'r enw "Woodland" - felly mae'n newid â ffocws.

<table>
<tr><td colspan="3" rowspan="2">Y Woodland, Cyffordd Llandudno</td><td>Polisi CDLl</td><td></td></tr>
<tr><td>Newid cyf.</td><td>PM074</td></tr>
<tr><td>Map</td><td>2</td><td>Newid bwriedig</td><td colspan="2">Cyfiawnhad</td></tr>
<tr><td>Cyfeirnod safle</td><td>14</td><td>Diwygio ffin yr anheddiad.</td><td colspan="2">Ffin i'w diwygio i gynnwys safle newydd wedi'i dyrannu.</td></tr>
<tr><td colspan="5">
</td></tr>
</table>